# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 04-11-08

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Michael Parry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Robert J. Wright, Sion Selwyn Roberts, Peter Read, (Cyngor Gwynedd), Dewi Owen Jones, (Cyngor Tref Pwllheli), Brian Edmunds a David Dewsbury, (Cymdeithas Cychod Hafan), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), David Hughes, (Siambr Fasnach Pwllheli), Dr. J.L. Morris Jones, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Huw Davies (Peiriannydd Grŵp) Neil Garton Jones, (Prif Beiriannydd Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Mike Ward, (Marina Projects) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Dafydd Phillips (Harbwr Feistr Pwllheli), Mr Rod Green, (Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch).

## 1. CADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol Y Cynghorydd Mike Parry yn Gadeirydd am y flwyddyn 2008-09**

## 2. IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol Y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd am flwyddyn 2008-09.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. LLONGYFARCHIADAU A CHROESO

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Y Cynghorydd Robert Wright ar dderbyn yr MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn gynharach eleni am ei wasanaeth i'r Bad Achub.
Estynnwyd croeso i'r aelodau newydd a oedd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghoreol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2008 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn cyfeirio at y gwaith a wnaed yn yr harbwr yn ystod y misoedd diwethaf yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol :

***Morwriaeth:***

Tynnwyd sylw at sylwadau a wnaed gan swyddog o Dy'r Drindod o safbwynt cyflwr y cymhorthion mordwyo.

Yn dilyn archwiliad, adroddwyd bod y rhan fwyaf o'r cymhorthion mewn cyflwr derbyniol. 'Roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn falch o nodi'r sylwadau o gofio'r adroddiad beirniadol a dderbyniwyd gan Dy'r Drindod yn dilyn archwiliad 2007.

Bydd angen cynnal a chadw cymhorthydd marc arbennig pibell arllwys carthffos Hafan y Môr a chymhorthydd arbennig Dŵr Cymru gyferbyn â Thraeth Marian y De. Cyfeiriwyd ymhellach at gynlluniau cynnal a chadw ar gyfer misoedd y gaeaf.

Mewn ymateb i ymholiadau, cadarnhawyd y byddai'r cymhorthion modrwy'n wrth fynediad yr harbwr yn cael eu symud yn ôl yr angen. Nodwyd hefyd o safbwynt diogelwch plant yng nghyffiniau traeth Penrhyn Glandon y dylid symud cymhorthion arbennig (parth cychod) ymhellach i'r bae.

Mae'n ymddangos bod yna ddyfnder dŵr digonol yn sianel yr harbwr ar hyn o bryd a bod cyfyngiad gyferbyn â swyddfa'r harbwr wedi lleihau. Ychwanegwyd bod y fynediad i'r harbwr mewnol wedi culhau ers y gwaith carthu diwethaf, ond nid oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn ystyried bod hyn yn achosi cyfyngiad.

***Rheolaeth***

Atgoffwyd aelodau fod rheolaeth Hafan Pwllheli wedi ei fewnoli yn uniongyrchol i Gyngor Gwynedd ers Ebrill 2008 a bod yr Hafan yn cael ei reoli yn uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd. Pwysleisiodd y swyddog mai'r un gweithwyr sy'n gyflogedig yn dilyn y newid, a diolchodd iddynt am eu cydweithrediad. Cadarnhawyd gan aelod nad oedd y newid wedi achosi dirywiad yn safon y gwasanaeth.

Yn ystod y misoedd nesaf bwriedir ystyried gwelliannau posib i reolaeth yr harbwr cyfan a rhagwelir y bydd modd gweithredu ar unrhyw newidiadau ym mis Hydref 2009. Nodwyd gan y swyddog mai un cam fydd uno gwasanaeth yr Hafan a'r harbwr allanol.

***Craen***

Bellach mae angen craen newydd, (hoist) yn yr Hafan ac yr oedd yr amcan brisiau a dderbyniwyd yn amrywio o £108,000 i £134,000. Pwysleisiodd y swyddog bod angen sicrhau cyllid fel y gellir cael craen newydd ar gyfer 2009.

Eglurodd y swyddog fod craen yn sicrhau incwm blynyddol o rhwng £100,000 a £110,000 ac na fyddai modd cynnal yr Hafan heb graen o safon. Ychwanegodd y byddai'n rhaid cael yr arian o'r gyllideb forwrol, a bod hyn yn bosib.

***Digwyddiadau***

Cyfeiriwyd at yr amrywiol weithgareddau a gynhaliwyd ym Mhwllheli yn ystod 2008 a'r gwaith a wnaed i sicrhau llwyddiant. Diolchwyd i'r Clwb Hwylio am eu cydweithrediad.

'Roedd cystadleuaeth genedlaethol dosbarth 'Optimist', a ddenodd dros 400 o gystadleuwyr ifanc, yn un o'r uchafbwyntiau.

Cyfeiriwyd hefyd at lwyddiannau Gŵyl Wakestock a'r Ŵyl Fwyd, a fydd yn dychwelyd i Bwllheli yn 2009.

Yn 2008 enillodd traeth Pwllheli a Hafan Pwllheli'r Faner Las Ewropeaidd unwaith yn rhagor, gyda Hafan Pwllheli yn ennill gwobr y 'Pum Angor.' Yn ychwanegol, enillodd traeth Glandon ddyfarniad 'Arfordir Gwyrdd' a bu'r cais am Wobr Traeth Gwledig hefyd yn llwyddiannus.

***Ystadegau***

Bu gostyngiad yn nifer y cychod ar angorfa yn yr harbwr allanol. 'Roedd 148 yno yn 2008 o'i gymharu â 164 yn 2007. 'Roedd hyn yn achos pryder yn arbennig o gofio'r nifer fawr o gwsmeriaid fydd ar restr aros yr Hafan.

Mewn ymateb, dywedodd aelod mai prinder cyfleusterau sylfaenol oedd yn gyfrifol am hyn, ac yr oedd am annog mwy o berchnogion cychod i aros. Cadarnhaodd y swyddog y byddai gwelliannau gyda phontŵn glanio yn cael eu hystyried yn 2009 ond na fyddai arian ar gael i gwblhau unrhyw waith bryd hynny.

Mae yna 412 o gychod ar angorfa pontŵn ym Mhwllheli, ac nid oes angorfa pontŵn yn weddill yn yr Hafan. Ar hyn o bryd mae 377 ar restr aros am angorfa yn y marina gyda phob unigolyn ar y rhestr yn talu £50 er sicrhau bod y cais yn ddilys.

Bu'r cynllun cofrestru, a oedd yn gofalu bod rhif amlwg ar gychod, yn llwyddiant, ond galwodd y swyddog ar i'r cwmnïau parcio a lansio fanteisio mwy ar y cynllun.

Cyfeiriodd aelodau at drafferthion sy'n bodoli yng nghyffiniau'r parcio a lansio. Galwyd am i ymholiadau gael eu gwneud i'r posibilrwydd o sicrhau lle parcio ar dir cyfagos. Derbyniodd y swyddog bod angen gwelliant, ond ar nodyn calonogol, dywedodd bod y cyfan yn tanlinellu poblogrwydd Harbwr Pwllheli.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â gorfodaeth i hawlio treth ychwanegol wrth werthu disel coch. Mae hyn yn cynyddu costau i berchnogion cychod
.
Cyflwynwyd gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ariannol a nodwyd bod targed incwm yr harbwr allanol ar gyfer 2008/09 yn £118,250. Cyrhaeddwyd £104,201 erbyn diwedd Medi 2008, sef £14,049 yn is na'r targed.

'Roedd targed incwm yr Hafan eleni yn £1,497,850, ac yn adroddiad 'diwedd Awst' gwelwyd bod yr incwm yn £1,373,774, sef £124,076 yn fyr o'r targed.

Ystyriwyd chwyddiant o fewn targedau incwm 2009-10 a nodwyd y byddai'n rhaid i'r Uned Forwrol wynebu'r cynnydd canlynol:

- Hafan - £74,290
- Doc Fictoria - £5,180
- Traethau - £6,330
- Harbyrau - £11,180.

O glywed am y cynnydd, mynegwyd pryder gan aelodau, ond mewn ymateb i ymholiadau, pwysleisiodd y swyddog nad arian i ymdrin â cholledion mewn mannau neu adrannau eraill fyddai hyn. Ychwanegodd fod y chwyddiant yn gysylltiedig â phethau fel nwy a thrydan ac na ellid eu osgoi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. CYNLLUN ACADEMI HWYLIO

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio ar y gwaith a wnaed hyd yma mewn cysylltiad â sefydlu Academi Hwylio a Chanolfan Digwyddiadau ym Mhwllheli. 'Roedd Bwrdd y Cyngor eisoes wedi cefnogi'r cynllun mewn egwyddor.

Cyfeiriwyd at nodweddion Pwllheli fel canolfan hwylio a'r modd y llwyddwyd i gynnal prif bencampwriaethau yno. Er y llwyddiant nodwyd bod y cyfyngiadau ar y cyfleusterau ac adnoddau ar y tir ac yn y dŵr yn dod i'r amlwg. Ychwanegwyd bod buddsoddiadau
i ganolfannau hwylio pwysig eraill y Deyrnas Unedig yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i ddenu cystadlaethau o safon i Bwllheli.

Mewn ymateb, ystyriwyd y posibilrwydd o sefydlu canolfan hwylio ryngwladol gyda chyfleusterau. Eglurwyd y byddai'r cynllun yn cynnwys agweddau cyfalaf, megis gwaith carthu a darparu angorfeydd a chyfleusterau cysylltiedig yn yr harbwr, ynghyd ag adeilad arfaethedig ar gyfer yr Academi.

Cyflwynwyd manylion ar y gwaith a wnaed hyd yma a chredai'r swyddog bod cyfle'n bodoli i adeiladu ar lwyddiant gweithgareddau hwylio sydd eisoes yn cael eu denu i Bwllheli a bod potensial i'w gadarnhau fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau o statws rhyngwladol.

Eglurwyd fod angen cwblhau astudiaethau pellach cyn ymgeisio am gefnogaeth ariannol o ffynonellau grantiau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 8. STRATEGAETH CARTHU HARBWR

Cyflwynwyd adroddiad gan Mike Ward, cynrychiolydd 'Marina Projects', y cwmni a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i baratoi strategaeth carthu Harbwr Pwllheli dros y 10 i 15 mlynedd nesaf.

Eglurwyd bod tri pharth penodol i'r harbwr, sef Mynedfa'r Harbwr, Y Sianel Fynediad a Basn yr Hafan. Cyfeiriwyd at y rhain yn unigol gan roi sylw i'w cyflwr presennol a'r gwaith a ellid ei wneud yno.

Cyfeiriwyd at y materion allweddol a ffurfiodd y strategaeth, ac yn sgil hyn nodwyd pwysigrwydd yr angen i leihau'r baich carthu cymaint a bo modd. Yn ogystal, ystyriwyd ei bod yn briodol i unrhyw strategaeth yn y dyfodol ganolbwyntio ar sicrhau bod mynedfa'r harbwr a'r sianel fynediad yn cael eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau y gall yr holl ddefnyddwyr wneud y gorau ohonynt.

Ymhellach yn yr adroddiad cyflwynwyd crynodeb o 23 argymhelliad fel y gallai'r aelodau eu hystyried.

Pe byddai carthu'n cael ei gwblhau pob gaeaf, ystyriwyd y byddai'r costau blynyddol tua £180,000. Fodd bynnag, efallai y byddai'n bosib carthu bob dwy flynedd, ond byddai hyn, i raddau helaeth, yn ddibynnol ar sicrhau bod capasiti digonol yn gallu cael ei greu o fewn y lagŵn distylllu, (stiilling lagoon).

O safbwynt taflen amser, rhagwelir y bydd strategaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer carthu yn ystod gaeaf 2009-2010.

Darparwyd cyllideb 2008/09 ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â charthu. Bydd hyn oddeutu £90,000 gan ragdybio y bydd yn rhaid ymgymryd â gwaith carthu cyfyngedig ym mynedfa'r harbwr.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau leisio barn ar y strategaeth a chafwyd trafodaeth lawn ar y mater. Rhoddwyd sylw arbennig i'r modd o waredu deunydd yn dilyn y carthu. Pwysleisiwyd y gallasai fod o fudd i draethau lleol a derbyniwyd y dylid ystyried gwneud defnydd ohono o fewn y diwydiant adeiladu. Cadarnhawyd y byddai pob opsiwn posib yn cael ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

**9. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU**

**a) Taliadau 2009-10**

Gwnaed cais gan Gymdeithas Cychod Hafan Pwllheli ar i unrhyw gynnydd yn nhaliadau Angori a Thaliadau ychwanegol ar gyfer 2009-10 gael eu cyfyngu i 2%.Yn ogystal, gwnaed cais gan y Gymdeithas ar i'r disgownt a ganiateir i breswylwyr lleol sy'n angori yn yr harbwr gael ei ymestyn i'r trigolion lleol sy'n angori yn yr Hafan.

Pwysleisiodd cynrychiolydd y Gymdeithas y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r trigolion lleol, sy'n angori yn yr harbwr a'r Hafan, yn gadael. Ychwanegwyd bod llawer o'r bobl yn oedrannus a bod costau cynyddol yn pryderu llawer.

Eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd adroddiad ar y Ffioedd a Thaliadau yn cael ei ystyried gan Fwrdd y Cyngor a byddai modd rhoi ystyriaeth bellach i'r awgrymiadau.

Nodwyd nad oedd Y Cynghorydd Robert Wright wedi cymryd rhan yn y drafodaeth yma.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a derbyn y wybodaeth.**

**b)** Gwnaed cais gan Gymdeithas Pysgotwyr Llŷn ar i'r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried trafferthion a achosir pan mae cychod mawr yn ymweld â Harbwr Pwllheli.

Ymhelaethodd eu cynrychiolydd fod nifer cynyddol o gychod mawr, megis cychod pysgota cregyn bylchog, yn ymweld â'r harbwr ac yn mynd i drafferthion oherwydd eu maint anaddas.

Cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod nifer o aelodau Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn wedi tynnu sylw at y trafferthion yma.

Awgrymwyd y gellid sicrhau trefniant i sicrhau nad yw'r cychod yma'n cyrraedd yn ddirybudd.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau a bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater.**

**CADEIRYDD**